

FFORWM Y SIR NODIADAU'R CYFARFOD

DYDDIAD: Nos Iau 10 Mai 2018

AMSER: 6.30 pm – 8.30 pm

YN CYNNAL : Cyngor Tref Cei Connah

LLEOLIAD: Swyddfeydd Cyngor y Dref, Adeilad y Cei, Ffordd Fron, Cei Connah,
Sir y Fflint, CH5 4PJ

RHAN UN

PRESENOLDEB

1. Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

1.1. Yn bresennol

Cyngor Sir y Fflint:

- Y Prif Weithredwr
- Prif Swyddog -Llywodraethu
- Prif Swyddog-Tai ac Asedau
- Prif Swyddog - Strydwedd a Chludiant
- Swyddog Cefnogi Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol

Colin Everett
Gareth Owens
Neal Cockerton
Stephen O Jones
Sam Perry -
Cofnodion

Cynghorau Tref a Chymuned:

- Cyngor Cymuned Argoed
- Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton
- Cyngor Cymuned Caerwys
- Cyngor Cymuned Cilcain
- Cyngor Tref Cei Connah
- Cyngor Cymuned Gwernaffield a Phantymwyn
- Cyngor Cymuned Gwernymynydd
- Cyngor Cymuned Penarlâg
- Cyngor Tref Treffynnon
- Cyngor Cymuned yr Hôb
- Cyngor Cymuned Coed-llai
- Cyngor Tref yr Wyddgrug
- Cyngor Cymuned Mostyn
- Cyngor Cymuned Nannerch
- Cyngor Cymuned Llaneurgain
- Cyngor Cymuned Northop Hall
- Cyngor Cymuned Pen-y-ffordd
- Cyngor Tref Saltney
- Cyngor Cymuned Sealand
- Cyngor Tref Shotton
- Cyngor Cymuned Ysceifiog

Cynrychiolwyr Eraill:

FFORWM Y SIR NODIADAU'R CYFARFOD

- Claire Germain, Llywodraeth Cymru

1.2. Ymddiheuriadau

Cyngor Sir y Fflint:

- | | |
|--|-----------------|
| • Arweinydd Cyngor Sir y Fflint | Aaron Shotton |
| • Prif Swyddog - Rhaglenni Strategol | Ian Bancroft |
| • Prif Swyddog - Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi | Andrew Farrow |
| • Prif Swyddog – Gwasanaethau Cymdeithasol | Neil Ayling |
| • Prif Swyddog Dros Dro -Addysg ac Ieuenctid | Claire Homard |
| • Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu | Karen Armstrong |
| • Swyddog Gweithredol | Joanne Pierce |

Cynghorau Tref a Chymuned:

- Cyngor Tref Bwcle
- Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor

Diolchodd Colin Everett i Gyngor Tref Cei Connah am gadeirio'r cyfarfod a darparu'r lleoliad. Llongyfarchodd CE y Cyng. Pam Attridge ar ei phenodiad newydd fel Cadeirydd Cyngor Tref Cei Connah.

Agorodd y Cyng. Pam Attridge y cyfarfod, diolchodd i bawb am ddod a chyflwyno'r materion cyffredinol a'r gweithdrefnau gadael mewn argyfwng ar gyfer yr adeilad. Cadeiriodd y Cynghorydd Pam Attridge y cyfarfod a chyflwyno pob eitem ar y rhaglen.

Cytunwyd bod y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2017 yn gofnod cywir o'r digwyddiadau. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

RHAN DAU

ADOLYGIAD CENEDLAETHOL

2. Adolygiad o Sector Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru

Dosbarthwyd copi o'r daflen wybodaeth ar gyfer Adolygiad o Sector Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned cyn y cyfarfod ynghyd â dolen gyswllt i'r dudalen berthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru.

Darparodd Claire Germain o Lywodraeth Cymru drosolwg o ddiben yr adolygiad ynghyd â'r cynnydd hyd yn hyn. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Mae Panel Adolygu Annibynnol, gyda chwech o bobl, wedi'i sefydlu i ystyried rôl Cynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol.
- Disgwylir i'r Adolygiad gymryd oddeutu blwyddyn i'w gwblhau ac mae ganddo gylch gwaith eang.
- Bydd yr adolygiad yn 1) archwilio potensial rôl llywodraeth leol islaw cynghorau Awdurdod Lleol, gan ddefnyddio arferion gorau, 2) diffinio'r

FFORWM Y SIR NODIADAU'R CYFARFOD

model(au)/strwythur(au) mwyaf priodol i gyflawni'r rôl a 3) ystyried sut y dylid cymhwyso'r modelau a'r strwythurau hyn ar draws Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried unrhyw sefyllfaoedd lle na fyddent yn ofynnol neu'n briodol.

- Mae pedwar cwestiwn wedi'u cyflwyno fel rhan o'r Adolygiad. Sef;
 - Beth ddylai Cynghorau Tref a Chymuned fod yn gyfrifol amdanynt?
 - Sut y dylent weithredu?
 - Beth sy'n eu hatal rhag darparu ar gyfer y gymuned leol?
 - Sut mae cynghorau yn sicrhau eu bod yn cynrychioli eu cymuned leol yn y modd gorau posibl?
- Cynhaliodd y Panel Adolygu ei gyfarfod cyntaf ym mis Medi 2017 ac ers hynny maent wedi cynnal sesiynau tystiolaeth misol gan glywed gan amrywiaeth o fudd-ddeiliaid.
- Mae'r Panel wedi ymweld ag ystod o Gynghorau Tref a Chymuned ledled Cymru, yn dysgu sut mae'r gwahanol gynghorau yn gweithio ar gyfer eu cymunedau.
- Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol ym mis Mawrth i roi cyfle i bob cyngor, clerac ac aelod o'r gymuned rannu eu safbwyntiau a chynorthwyo i lunio dyfodol y sector. Cafwyd presenoldeb da ym mhob digwyddiad.
- Yn ogystal â hyn, mae'r Panel wedi cynnal pedwar gweithdy gyda chynrychiolwyr o awdurdodau lleol ledled Cymru.
- Mae'r Panel yn awr yn dechrau canolbwyntio ar ddechrau llunio eu canfyddiadau craidd a nodi unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg.
- Anogwyd cynghorau tref a chymuned i ymateb i gwestiynau'r adolygiad os nad oeddent wedi gwneud hynny'n barod.

Cafwyd trafodaeth faith am y mater hwn. Mae crynodeb o'r pwyntiau a godwyd ynglŷn â'r pedwar cwestiwn yn cynnwys:

- Mae'r Adolygiad ychydig yn rhy eang, dylai bod gwell canolbwynt a darparu cyfeiriad cliriach a mwy o fanylion ynglŷn ag elfennau penodol yr adolygiad.
- Dylai bod rôl sylfaenol y Cynghorau Tref a Chymuned yn ymwneud â:
 - darparu dull i symud pethau ymlaen tra'n sicrhau bod buddion y gymuned leol yn cael eu diwallu, gan gydnabod bod pob cymuned yn wahanol a bydd buddion y gymuned ym amrywio ar draws y sir,
 - creu perthnasau gwaith da / agosach gyda Chynghorwyr Sir a'r Awdurdod Lleol,
 - archwilio dulliau eraill ac adnoddau i ddarparu gwaith partneriaeth gwell, a
 - sicrhau bod hunaniaeth / llais unigryw cymunedau lleol yn cael eu rhannu – nid yw un maint yn addas i bawb.
- Trafodwyd gwleidyddiaeth plaid a rôl hyn a'r adegau lle nad yw'n berthnasol
- Mynegodd nifer o Gynghorau Tref a Chymuned bryderon ynglŷn â diffyg cyllid ac adnoddau i ddarparu / ehangu rôl Cynghorau Tref a Chymuned yn enwedig gan fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gorau i nifer o'r ffrydiau cyllid amrywiol oedd ar gael iddynt.

FFORWM Y SIR NODIADAU'R CYFARFOD

Cafwyd trafodaeth am ddemocratiaeth a gwleidyddiaeth plaid a rôl hyn a lle nad yw'n berthnasol.

Cwestiynau ac Atebion:

A yw'r adolygiad yn cael ei gymell gan arian?

Na, nid dyna'r bwriad yn yr Adolygiad hwn.

A fydd y cyllid a'r adnoddau sydd ar gael yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn?

Bydd. Cadarnhaodd Claire bod Llywodraeth Cymru'n ystyried hyn fel rhan o'u Hadolygiad. Mae trafodaeth gyffredinol am ddarparu adnoddau yn cael ei chynnal ar hyn o bryd. Er mwyn cynorthwyo i hysbysu trafodaethau am y cyllid a'r adnoddau sydd ar gael gofynnodd Claire i'r Cynghorau Tref a Chymuned roi gwybod i'r Panel Adolygu am unrhyw ffrydiau cyllid / adnoddau sydd wedi'u colli.

Camau Gweithredu:

Hysbysu'r Panel Adolygu ynglŷn ag unrhyw ffrydiau cyllid / adnoddau sydd wedi'u colli
[Yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i weithredu]

Ymateb i'r pedwar cwestiwn yn uniongyrchol. Fel arall, anfon unrhyw sylwadau / ymatebion at Sam Perry.

[Yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i weithredu]

Casglu unrhyw adborth / sylwadau ac/neu ymatebion i gwestiynau'r arolwg mewn un dogfen a chyflwyno un ymateb i Claire Germain.

[Sam Perry i weithredu]

RHAN TRI

MATERION Y CYNGOR

3. Adolygiad Siarter: Cymuned a Rennir – Siarter ar y Cyd rhwng Cyngor Sir y Fflint a Chynghorau Tref a Chymuned yn Sir y Fflint

Dosbarthwyd copi o'r Siarter ddrafft (Fersiwn 6 – Ebrill 2018) i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth ac i'w adolygu cyn y cyfarfod.

Darparodd Colin Everett drosolwg o'r Siarter a'r newidiadau allweddol a wnaed fel rhan o'r adolygiad. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Mae'r siarter yn siarter ar y cyd rhwng Cyngor Sir y Fflint a Chynghorau Tref a Chymuned yn Sir y Fflint .

FFORWM Y SIR NODIADAU'R CYFARFOD

- Cafodd y Siarter ei chreu o ganlyniad i'r ddogfen ganllaw 'Cymuned a rennir' a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru ac Un Llais Cymru.
- Diben y Siarter oedd ategu at arferion da presennol a chroesawu'r egwyddorion a rennir o ran bod yn agored.
- Yn dilyn cytundeb yng nghyfarfod Fforwm y Sir ym mis Hydref 2017, mae Gweithgor bychan wedi cyfarfod i ymgymryd ag adolygiad ar y cyd o'r Siarter.
- I grynhoi, mae'r prif addasiadau i'r Siarter yn cynnwys:
 - Ychwanegu tudalen gynnwys i gynorthwyo gyda chyfeirio a llywio'r Siarter.
 - Strwythur diwygiedig wedi'i rannu'n bump rhan i gynorthwyo gyda llif a chysondeb y Siarter.
 - Diweddariad cyffredinol i adlewyrchu'r newidiadau mewn gohebiaeth ddigidol.
 - Cynnwys adran benodol ar gyfer Fforwm y Sir (Adran 1). Ychydig iawn o gyfeiriadau oedd tuag at Fforwm y Sir yn yr hen fersiwn.
 - Gwybodaeth am gefnogi ymgyrchoedd a gohebiaeth y Cyngor wedi'i ychwanegu yn yr adran Ymgynghori ac Ymgysylltu (Adran 2).
 - Mae gwybodaeth wedi'i hychwanegu am y gwasanaethau datganoledig ac fe gyfeiriwyd at y Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol a'r Modelau Darparu Amgen (Adran 3: Gwasanaethau).
 - Tynnu'r adran sy'n ymwneud â'r Strategaeth Gymunedol gan nad yw'n berthnasol mwyach.
 - Ychwanegu adran newydd yn ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Lles Sir y Fflint i ychwanegu dolenni cyswllt at wybodaeth bellach a dolenni cyswllt at Gynllun y Cyngor (Adran 5).
 - Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys am Amrywiaeth a Chydraddoldeb a Safonau'r Iaith Gymraeg (Adran 5).
- Bydd y Gweithgor yn cyfarfod eto ddydd Llun 14 Mai 2018 i ddechrau datblygu Cynllun Gweithredu ategol.
- Bydd y Gweithgor yn cyfarfod bob chwe mis i adolygu'r Cynllun Gweithredu ac yn flynyddol i adolygu a diweddarau'r Siarter.

Cymeradwyodd y Cynghorau Tref a Chymuned y Siarter ddiwygiedig yn amodol ar y Cynllun Gweithredu ategol ac ni chyflwynwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r eitem hon.

Cwestiynau ac Atebion:

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar y Rhaglen.

Camau Gweithredu:

Anfon copi electronig o 'Bapur Briffio'r Siarter' i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned yn dilyn y cyfarfod.

[Sam Perry i weithredu]

FFORWM Y SIR NODIADAU'R CYFARFOD

Anfon copi o'r Cynllun Gweithredu drafft, ar ôl ei baratoi, i'r holl Gyngorau Tref a Chymuned i'w adolygu / derbyn adborth.

[Sam Perry i weithredu]

Anfon unrhyw sylwadau / adborth ynghlŷn â'r Siarter ddiwygiedig a /neu'r Cynllun Gweithredu at Sam Perry cyn gynted ag y bo modd.

[Yr holl Gyngorau Tref a Chymuned i weithredu]

Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghlŷn â datblygiad y Cynllun Gweithredu ategol yng nghyfarfod Fforwm y Sir ym mis Mehefin 2018.

[Karen Armstrong/ Joanne Pierce i weithredu]

4. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Darparodd Colin Everett y wybodaeth ddiweddaraf am gynrychiolaeth Cyngorau Tref a Chymuned ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint, a'r cynnydd diweddaraf o ran datblygu Strategaeth Lles newydd ar gyfer Sir y Fflint. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Mae tri Chynghorydd wedi mynegi diddordeb mewn cynrychioli Cyngorau Tref a Chymuned ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint. Yn hytrach nag ymgymryd â phroses ddethol i benderfynu ar gynrychiolaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gwnaed penderfyniad i wahodd y tri enwebai i fynychu ar sail rota.
- Cefnogodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddrafft Cynllun Lles Sir y Fflint – Mawrth 2018.
- Cyflwynodd y Cyngor y Cynllun i'r Cabinet a chyfarfod arbennig y Cyngor Sir i dderbyn cefnogaeth ffurfiol a'i fabwysiadu – Ebrill 2018.
- Gofynnwyd i holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi / mabwysiadu'r Cynllun yn ffurfiol trwy eu sefydliadau eu hunain cyn cyhoeddi.
- Bydd y fersiwn wedi'i ddylunio o'r Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor cyn diwedd Mai 2018. Bydd copi'n cael ei ddosbarthu i Gyngorau Tref a Chymuned ar ôl ei gyhoeddi.

Cwestiynau ac Atebion:

A yw Teithio Llesol yn rhan o'r Cynllun Lles?

Ydi. Mae cryn dipyn o waith yn cael ei wneud yn y maes hwn.

Camau Gweithredu:

Cysylltu â'r tri enwebai ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w gwahodd yn ffurfiol i fynychu cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2018 (AGM).

[Colin Everett i weithredu]

FFORWM Y SIR NODIADAU'R CYFARFOD

Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Gyngor Cymuned Argoed ynglŷn â'r Fforwm Mynediad Lleol.

[Colin Everett i weithredu]

Anfon copi o'r fersiwn derfynol o'r Cynllun Lles i'r Cynghorau Tref a Chymuned ar ôl ei gyhoeddi.

[Sam Perry i weithredu]

5. Sefyllfaoedd Cyllidebau Cenedlaethol a Lleol

Rhoddodd Colin Everett ddiweddariad bras ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran sefyllfa'r gyllideb genedlaethol a lleol:

- Llwyddodd Cyngor Sir y Fflint i fantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn hon.
- Mae gwaith ar y gweill i edrych ar y gyllideb amlinellol ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Mae'r dirwedd yn newid yn genedlaethol.
- Datganiad y Canghellor yn yr hydref – Rhywfaint o bositifrwydd.
- Mae angen newid ar lefel genedlaethol fel arall bydd nifer o Gynghorau yn cael trafferth wrth geisio mantoli eu cyllideb.
- Ers sawl blwyddyn, mae Cyngor Sir y Fflint, fel Cyngor sy'n cael llai o gyllid y pen dan y fformiwla ariannu, wedi datgan pam bod cynghorau yn y sefyllfa hon yn arbennig o ddiameddiffyn i effeithiau parhaus y caledi ariannol a byddant yn parhau i wneud hynny.
- Mae Cyngor Sir y Fflint yn ceisio amddiffyn gwasanaethau ac yn parhau i ganfod dulliau arloesol o arbed arian.

Canmolodd y Cynghorydd Billy Mullin, Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton, Cyngor Sir y Fflint am y gwaith a wnaed i fantoli'r gyllideb a diogelu gwasanaethau ar gyfer y sir.

Cwestiynau ac Atebion:

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar y Rhaglen.

Camau Gweithredu:

Ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu ar gyfer yr eitem hon ar y Rhaglen.

6. Tudalen we Fforwm y Sir

Hysbysodd Gareth Owen y Cynghorau Tref a Chymuned bod gwybodaeth wedi'i hychwanegu at dudalen hafan Fforwm y Sir ar wefan y Cyngor a fydd yn ddefnyddiol i godi ymwybyddiaeth o'r cod gyda'u cynghorwyr. Yr eitem gyntaf yw cyfres o sleidiau yn cynnwys gwybodaeth gefndirol am y cod a'r ymddygiadau a fydd yn achosi ei weithrediad neu'n torri ei ofynion. Yr ail yw dolen at fideo a baratowyd gan

FFORWM Y SIR NODIADAU'R CYFARFOD

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn trafod ei rôl mewn perthynas â'r cod ymddygiad. Paratowyd y ddau ar gyfer y cynghorwyr newydd yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2017 ac maent wedi'u defnyddio yn y sesiwn hyfforddiant yn Llaneurgain yn ddiweddar. Bydd sesiwn arall yn cael ei threfnu ar gyfer mis Medi 2018. Unwaith eto, bydd yn agored i bawb ond bydd yn cael ei gynnal ymhellach i'r gogledd yn y sir.

Cwestiynau ac Atebion:

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar y Rhaglen.

Camau Gweithredu:

Anfon dolen gyswllt i'r dudalen berthnasol ar wefan y Cyngor i Gyngorau Tref a Chymuned.

[Sam Perry i weithredu]

7. Gwerth blaenoriaethau ardal wedi'u cyd-ddylunio

Darparodd Neal Cockerton y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau cynnar ynglŷn â gwerth blaenoriaethau a phroffiliau ardal wedi'u cyd-ddylunio yn absenoldeb Ian Bancroft. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Fel rhan o waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 'Cymunedau Gwydn', mae darn mawr o waith yn ymwneud â datblygu gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio'n gydlynol i weithio gyda chymunedau i 1)datblygu proffiliau cymunedol a blaenoriaethau ardal a 2) nodi'r nodweddion allweddol sy'n galluogi i gymuned fod yn wydn mewn ymateb neu wrth ddelio â phroblem fawr e.e. llifogydd, trosedd.
- Roedd gwaith y proffiliau cymunedol yn ymwneud ag agweddau ffisegol ardal a'r asedau o ran pobl allweddol er enghraifft gwirfoddolwyr, hyrwyddwyr cymunedau a galluogi rhannu'r wybodaeth hon pan fo'n briodol.
- Yn seiliedig ar y wybodaeth yr asedau mewn ardal, y bwriad yw gweithio gyda chymunedau i nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer yr ardal a fydd yn cefnogi cynnydd yng ngwydnwch y gymuned honno.
- Bydd y gwaith yn cysylltu gyda ac yn ymgorffori'r gwaith sydd wedi'i ddatblygu hyd yma ar gynllunio cymunedol o safbwynt cynllunio ffisegol e.e. Gwernymynydd.
- Y bwriad yw dechrau'r gwaith gyda thri cymuned lle bo'r gwaith eisoes wedi dechrau ar fentrau lleol allweddol. Sef:
 - Treffynnon (Holway) – mae buddsoddiad yn yr amgylchedd tai a gwaith ar y cyd i atal trosedd,
 - Y Fflint – mae gwaith ar y gweill ar gyfer adfywiad ffisegol y dref a'r Blaendraeth, a
 - Shotton – gyda lleoliad Gofal a Thrwsio mae menter gymdeithasol enfawr gydag ased mawr wedi'i leoli ar safle hen glwb cymdeithasol Tata Steel.
- Bydd y camau nesaf yn cynnwys gwaith datblygu yn y dair ardal, ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned gan gynnwys datblygu proffiliau cymunedol a blaenoriaethau cymunedol.

FFORWM Y SIR NODIADAU'R CYFARFOD

- Bydd canlyniadau'r gwaith yn cael eu cyflwyno'n ôl i Fforwm y Sir ar adegau priodol i sicrhau bod Cynghorau Tref a Chymuned yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ac i rannu'r hyn a ddysgwyd.

Cwestiynau ac Atebion:

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar y Rhaglen.

Camau Gweithredu:

Anfon copi electronig o bapur briffio Ian Bancroft i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned yn dilyn y cyfarfod.

[Sam Perry i weithredu]

8. Cynllunio Cymunedol

Dosbarthwyd dogfen yn amlinellu'r broses ar gyfer datblygu 'Cynllun Datblygu Gwernymynydd' er gwybodaeth a darparodd y Cynghorydd Chris Bradshaw drosolwg bras o'r broses. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Roedd cymuned Gwernymynydd eisiau bod yn llai adweithiol ac yn fwy rhagweithiol ac o ganlyniad i hyn, sefydlwyd Gweithgor bychan.
- Dechreuodd y gwaith yn 2007 i ddechrau edrych ar y broses o ddatblygu Cynllun lleol.
- Ar y pryd nid oedd Cynlluniau Datblygu Cymunedol yng Nghymru ond roedd 1,500 yn Lloegr.
- Roedd angen i'r Cynllun fod yn ddogfen gymeradwy yn seiliedig ar dystiolaeth a derbyn cefnogaeth gan Gyngor Sir y Fflint er mwyn bod yn ystyrlon a chyflawni ei ddiben.
- Cynhaliwyd gwahanol ddulliau o ymgynghori ac ymgysylltu fel rhan o ddatblygiad y Cynllun gan gynnwys arolwg cwestiwn agored a gyflwynwyd i'r holl aelwydydd yn y gymuned.
- Y mater mwyaf a nodwyd o ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu oedd diffyg gweithgarwch cymdeithasol yn y gymuned.
- Cymerodd y Cynllun bedair blynedd o'r cysyniad gwreiddiol i'w gynhyrchu ac fe'i gyhoeddwyd gyntaf ym mis Mai 2011. Mae copi o'r Cynllun Datblygu Cymunedol ar gael ar wefan Cyngor Cymuned Gwernymynydd drwy ddilyn y ddolen enfys ar yr hafan.
- Mae adolygiad mawr o'r Cynllun yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd.

Eglurodd y Cynghorydd Kevin Hughes o Gyngor Cymuned Gwernymynydd bod y Cynllun yn cael ei drafod, ei ddiweddarau a'i wella'n rheolaidd ac mae'r gymuned wedi gweld mwy o fuddion cymunedol o ganlyniad i'r Cynllun. Gofynnodd y Cynghorydd Hughes i'r Cynghorau Tref a Chymuned ystyried datblygu Cynllun lleol o fewn eu cymunedau, os nad oeddent wedi ystyried hynny eisoes.

Eglurodd y Cynghorydd Marjorie Thompson rai enghreifftiau o'r buddion cymunedol a welwyd o ganlyniad i'r Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Trosglwyddiad Ased Cymunedol ar gyfer y Ganolfan Bentref,
- Cydweithredfa ffrwythau a llysiau wythnosol,

FFORWM Y SIR NODIADAU'R CYFARFOD

- Clwb cinio wythnosol,
- Dosbarthiadau ioga, a
- Phantomeim blynyddol.

Cynigodd Cyngor Cymuned Gwernymynydd y gallant fynychu unrhyw gyfarfod Cyngor Tref neu Gymuned i drafod datblygiad a buddion y Cynllun gyda mwy o fanylder os oes angen.

Gofynnodd Colin Everett i'r Cynghorau Tref a Chymuned gysylltu â Chyngor Sir y Fflint os oes ganddynt ddi-ddordeb mewn datblygu Cynllun Datblygu Cymunedol i benderfynu pa gefnogaeth y gall y Cyngor ei gynnig.

Cwestiynau ac Atebion:

A ymgynghorwyd â phawb yn y Gymuned fel rhan o'r broses ddatblygu neu a oedd yr ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu yn canolbwyntio ar y rhai sy'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor?

Cynhaliwyd sawl digwyddiad ymgynghori ac ymgysylltu yn y gymuned. Anfonwyd arolwg cwestiwn agored at bob aelwyd yn y gymuned i sicrhau fod pawb yn cael cyfle i leisio eu barn.

Beth oedd y niferoedd ymateb a gaethoch ar gyfer yr arolwg?

Daeth dros 200 o bobl i'r diwrnod arddangos ac ymatebodd 21 o aelwydydd i'r arolwg. Yn ogystal, derbyniwyd adborth drwy ddulliau eraill e.e. sylw ar y byrddau ac ati.

Camau Gweithredu:

Sgano a dosbarthu copi o ddogfen 'Proses Cynllun Datblygu Gwernymynydd' i'r holl Gyngorau Tref a Chymuned.

[Sam Perry i weithredu]

Lawrlwytho copi o gynllun Gwernymynydd o'u gwefan a dosbarthu copi i'r Gyngorau Tref a Chymuned er gwybodaeth.

[Sam Perry i weithredu]

Cysylltwch â Chyngor Cymuned Gwernymynydd os hoffech unrhyw wybodaeth bellach ac/neu iddynt fynychu cyfarfod y Cyngor.

[Yr holl Gyngorau Tref a Chymuned i weithredu]

Cyngorau Tref a Chymuned sydd â diddordeb i gysylltu â Chyngor Sir y Fflint i benderfynu pa gefnogaeth y gall y Cyngor ei gynnig.

[Yr holl Gyngorau Tref a Chymuned i weithredu]

FFORWM Y SIR NODIADAU'R CYFARFOD

9. Adolygiad Gwasanaeth Bws

Darparodd Stephen O'Jones ddiweddariad bras ar yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Bws:

- Mae adolygiad cynhwysfawr o'r rhwydwaith trafnidiaeth a sut i flaenoriaethu cyllid cyhoeddus cyfyngedig ar y gweill.
- Mae proses agored a thryloyw yn cael ei dilyn.
- Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein ar gyfer yr adolygiad a ddechreuodd ym mis Ebrill 2018 a bydd yn dod i ben ar 3 Mehefin 2018.
- Anogwyd cynghorau tref a chymuned i ymateb i'r ymgynghoriad os nad oeddent wedi gwneud hynny'n barod. Mae'r cyngor angen cymaint o adborth â phosibl i sicrhau y gwneir penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth.
- Cynhaliwyd digwyddiadau galw heibio i ymgysylltu â'r cyhoedd mewn pum lleoliad i roi'r cyfle i bobl drafod yr adolygiad gyda'r Cyngor.
- Bydd yr adborth yn cael ei adolygu a chynigion yn cael eu cyflwyno ar y dewis cludiant a ffeirir ym mhob ardal ym mis Mehefin 2018.
- Bydd cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried ym mis Gorffennaf 2018.
- Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu gweithredu o fis Hydref 2018.

Cynigodd Stephen O'Jones y gallai fynychu cyfarfod Fforwm y Sir ym mis Mehefin i ddarparu cyflwyniad sy'n fwy manwl ar gyfer yr adolygiad a'r pedwar dewis sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r adolygiad.

Cwestiynau ac Atebion:

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar y Rhaglen.

Camau Gweithredu:

Cynnwys Adolygiad y Gwasanaeth Bws fel eitem ar y rhaglen ar gyfer cyfarfod Fforwm y Sir ym mis Mehefin 2018.

[Sam Perry i weithredu]

RHAN PEDWAR

MATERION CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

10. Atgyweirio Tyllau mewn Ffyrdd – Cyngor Cymuned Cilcain

Darparodd Stephen O'Jones drosolwg byr o'r broses bresennol ynglŷn ag atgyweirio tyllau mewn ffyrdd a hysbysu'r Cynghorau Tref a Chymuned y dylent oll gael

FFORWM Y SIR NODIADAU'R CYFARFOD

cynrychiolydd enwebedig sy'n cael eu contractio i fynychu unrhyw gyfarfodydd Cyngor y rhoddir gwahoddiad iddynt eu mynychu. Gofynnwyd i Gyngorau Tref a Chymuned hysbysu Stephen O'Jones ynglŷn ag unrhyw faterion lle nad oedd y cynrychiolwyr enwebedig yn sicrhau eu bod ar gael pan y gofynnir iddynt wneud hynny a gofynnwyd i'r Gyngorau Tref a Chymuned roi gwybod i Stephen O'Jones a'u cynrychiolydd enwebedig os oes ganddynt unrhyw enghreifftiau lle nad yw'r gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn wrth atgyfweirio'r tyllau yn y ffyrdd.

[Yr holl Gyngorau Tref a Chymuned i weithredu]

11. Cyllid Cynnal a Chadw Priffyrdd – Cyngor Cymuned Cilcain

Cadarnhaodd Stephen O'Jones bod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud popeth o fewn ei allu i geisio cyllid ychwanegol i gynorthwyo i ariannu cynnal a chadw ffyrdd a bydd yn parhau i geisio cyllid ychwanegol pan yn briodol.

Camau Gweithredu:

Nid oedd unrhyw gamau gweithredu i'r eitem hon ar y Rhaglen.

12. Gwyllo Cyflymder Cymunedol – Cyngor Cymuned Argoed

Darparodd y Cynghorydd John Holiday drosolwg byr o'r Ymgyrch Speedwatch Cymunedol sy'n cael ei weithredu yn ei gymuned gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr o'r gymuned ac anogodd y Gyngorau Tref a Chymuned i ystyried gweithredu cynllun tebyg yn eu cymunedau eu hunain.

Dylai'r Gyngorau Tref a Chymuned sydd â diddordeb gysylltu â naill ai'r Cynghorydd Arnold Wooley neu Gyngor Cymuned Argoed i gael rhagor o wybodaeth.

[Yr holl Gyngorau Tref a Chymuned i weithredu]

RHAN PUMP

CYFARFODYDD I DDOD

Mae Cyfarfodydd Fforwm y Sir ar gyfer y dyfodol wedi cael eu trefnu fel a ganlyn:

Dyddiad: Nos Fawrth 19 Mehefin 2018
Amser: 6.30pm - 8.30pm
Yn Gwesteio / Cadeirio: Cyngor Cymuned Coed-llai a Phontblyddyn
Lleoliad: Canolfan Gymunedol Coed-llai, King Street, Coed-llai, CH7 4SB

Dyddiad: Nos Iau 4 Hydref 2018
Amser: 6.30pm - 8.30pm
Yn Gwesteio / Cadeirio: Cyngor Tref Saltney

FFORWM Y SIR NODIADAU'R CYFARFOD

Lleoliad: Canolfan Gymunedol Douglas Place, Woodhall Avenue, Saltney,
CH4 8NB.

Eitemau arfaethedig ar gyfer y Rhaglen ar gyfer Mehefin 2018:

- Cyflwyniad – Adolygiad y Gwasanaeth Bws i ddarparu trosolwg o'r pedwar dewis sydd wedi'u cyflwyno fel rhan o'r adolygiad (**Stephen O'Jones**)
- Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer Sir y Fflint (**Fiona Mocko**)
- Cyflwyniad gan Dewis i ddangos ei werth fel adnodd i wella iechyd a lles (**Kate Howard**)
- Prosiect Awyr Dywyll AHNE (awgrym o'r cyfarfod blaenorol)

Camau Gweithredu:

Anfon unrhyw eitemau ar gyfer y rhaglen at Sam Perry cyn pob cyfarfod.

[Yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i weithredu]